Clerc/Clerk: Rhianwen Sheldon
Cyfeiriad/Address:27 Alltwen Llysfaen Colwyn Bay LL29 8PG
Ffon/Tel: 07786253828
Ebost/Email: valleycommunitycouncil@gmail.com
Safle We: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ynys Wen / *Minutes of Ynys Wen Committee***
**Nos Iau/Thursday 04.05.23 7.00 yh/pm yn/at Parc Mwd, Valley**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. | **Welcome**<br>The Cahir welcomed everyone to the meeting. |
| 2. | **Presennol ag ymddiheuriadau**<br>Cyng W Rogerson (Cadeirydd)<br>Cyng N Tuck<br>Cyng G Browne<br>Cyng M Swaine Williams<br>Cyng A walker<br><br>Hefyd yn bresennol: G Roberts, Ymgymerwr ag R Sheldon Clerc.<br><br>Ymddiheuriadau: O R Jones, Ymgymerwyr | **Present & apologies**<br>Cllr W Rogerson (Chairman)<br>Cllr N Tuck<br>Cllr G Browne<br>Cllr M Swaine Williams<br>Cllr A Walker<br><br>Also present: G Roberts, Undertaker and R Sheldon Clerk<br><br>Apologies: O R Jones Undertakers |
| 3. | **Cofnodion cyfarfod â gynhaliwyd 13.07.2022**<br>Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. | **Minutes of meeting held on 13.07.2022**<br>The minutes were accepted as a true record of the meeting. |
| 4. | **Materion yn Codi o'r cofnodion**<br>Nodwyd bod y Cynghorydd K Taylor wedi ymddiswyddo o'r pwyllgor oherwydd ymrwymiadau gwaith. Mynegodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cyng Talyor am ei fewnbwn dros y blynyddoedd.<br>Eitem 3. Paentio giatiau wedi ei gwblhau. Mynegwyd diolch i'r Cynghorwyr A Walker, G Browne a N tuck.<br>Eitem 4. Mae'r Asesiad Risg nesaf i fod i gael ei gwblhau Mehefin/Gorffennaf 2023. Mae'r holl faterion a godwyd o'r asesiad diwethaf wedi cael sylw.<br>Eitem 6. Adeiladwyr yn defnyddio maes parcio'r fynwent i lanhau eu cerbydau: Nodwyd na dderbyniwyd adroddiadau diweddar yn hyn o beth. | **Matters Arising from the minutes**<br>It was noted that Cllr K Taylor had resigned from the committee due to work committments. The Chair expressed thanks to Cllr Talyor for his input over the years.<br><br>Item 3. Painting of gates completed. Thanks were expressed to Cllrs A Walker, G Browne and N tuck.<br>Item 4. The next Risk Assessment is due to be completed June/July 2023. All issues raised from last assessment have been addressed.<br><br>Item 6. Builders using cemetery car park to clean vehicles: It was noted that no recent reports had been received in this respect. |
| 5. | **Cyflwr beddi newydd**<br>Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn hwyr ar 19.04.23 ynglŷn â chyflwr bedd newydd. Roedd y pridd wedi setlo a'r bedd yn ymddangos wedi suddo. Roedd yr ymgymerwr | **Condition of new graves**<br>A complaint was received from a member of the public late on 19.04.23 regarding the condition of a new grave. The soil had settled and the garve appeared sunk. The undertaker involved rectified |

| | | |
|---|---|---|
| | priodol wedi unioni'r mater dranoeth drwy ychwanegu pridd i lefelu'r tir. Adroddwyd bod yr ardal arbennig o'r fynwent yma yn dod yn hynod o wlyb yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.<br><br>Nodwyd ymarfer da gan rai ymgymerwyr, lle agorwyd beddau ychwanegol, eu bricio fyny a'u hail-lenwi ymlaen llaw, gan leihau'r traffig peiriannau ar y tir. Rhywfaint o bridd hefyd yn cael ei roi mewn twmpath ar y bedd ar ôl claddedigaeth i unioni unrhyw anheddiad. Mae byrddau hefyd yn cael eu rhoi lawr i leihau difrod i'r maes.<br><br>**Argymhelliad 1:** Ychwanegu 'cyflwr maes y fynwent' at yr Asesiad Risg ac i ofyn am gyngor gan yr Awdurdod Lleol ar gynigion draenio tir posib a'r parhad i ddefnyddio'r ardal gladdu yn ddiogel. Pawb yn gytun.<br>Y Clerc i gysylltu â'r Awdurdod Lleol cyn gynted â phosib. | the matter next morning by adding soil to level the ground. It was reported that that particular area of the cemetery becomes extremely wet especially during winter months.<br><br>Good practice was noted by some undertakers, where additional graves were opened, bricked up and refilled in advance, thus reducing the traffic of machinery on the land. Some soil also placed in a mound on the grave after interment to allow for settlement. Boards are also put down to reduce damage to the field.<br><br>**Recommendation 1:** To add 'the condition of the cemetery field' to the Risk Assessment and to seek advice from the Local Authority on potential drainage solutions and continued safe use of the burial area. All agreed.<br>The Clerk to contact the Local Authority as soon as possible. |
| 5 | **Ffioedd Claddu**<br>Nodwyd balans cyfrifon Ynys Wen yn £27,231.09 ar 31.03.23. Cynhyrchwyd incwm o £7110 yn ystod 2022/23. Roeed y costau cynnal a chadw yn £1,682.73 am y cyfnod. Cynyddodd y nifer o gladdedigaethau yn ystod y flwyddyn h.y., 11 agor beddau, 9 ailagor beddau ynghyd â 6 claddu llwch, o'i gymharu â 9,1 ac 1 yn y drefn honno yn ystod 2021/22. Nodwyd bod digon o gapasiti ar gyfer claddu yn y safle.<br><br>Cafodd y ffioedd claddu eu hadolygu ac fe argymhellwyd eu bod yn aros yr un fath.<br><br>**Argymhelliad 2:** Bod ffioedd claddu i aros yr un fath. Prop/Sec MSW/NT | **Burial Fees**<br>The balance of the Ynys Wen accounts was noted at £27,231.09 at 31.03.23. The income generated during 2022/23 was £7,110. Maintenance costs were £1,682.73 for the period. The number of burials increased during the year i.e., 11 opening of graves, 9 re-opening of graves plus 6 burial of ashes, compared to 9,1 and 1 respectively during 2021/22. Sufficient capacity for burial at the site was noted.<br><br>The burial fees were reviewed and it was recommended that they remain the same.<br><br>**Recommendation 2**: That burial fees to remain the same. Prop/Sec MSW/NT |
| 6 | **Unrhyw fusnes arall**<br><br>Nododd y Cadeirydd fod angen diweddaru'r hysbysiadau ar yr hysbysfwrdd cyhoeddus. Y Clerc i weithredu cyn gynted â phosib. | **Any other business**<br><br>The Chair noted that the notices on the public notice board need to be updated. The Clerk to action as soon as possible. |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 7.30yh | Meeting ended at 7.30pm |